

www.cyngorllanelltyd.cymru

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd yn
Neuadd Bentref, Llanelltyd
Nos Fawrth, Mawrth 12, 2024 am 7.30 o'r gloch.**

Preseanol: Cyngorwyr: Simon Evans, Geraint Rowlands, Llinos Rowlands, Gwenan Owen, Eleri Jones, Elfed ap Gomer. Hefyd Henry M. Edwards.

Yn bresennol hefyd oedd Ms Lowri Roberts oedd â diddordeb i fod yn Glerc i'r Cyngor.

1. Ymddiheuriadau: Delyth Lloyd Griffiths, Llinos Williams a Gareth Ellis.

2. Datgan diddordeb:

Roedd Gwenan Owen yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 5.f.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mawrth 12, 2024

Cynigwyd y cofnodion gan Llinos Rowlands ac eilwyd gan Geraint Rowlands.

4. Materion yn codi o'r cyfarfod Mawrth 12, 2024

Eitem 12.c. Anfonodd (21/3/2024) y Clerc neges i'r aelodau yn rhoi gwybod iddynt ei fod yn ymddiswyddo o'i swydd yn cyfarfod mis Ebrill, a mis Ebrill bydd ei gyfarfod olaf.

Diolchodd aelodau'r Cyngor am wasanaeth Henry am y 15 mlynedd fuodd yn Clerc. Dywedodd y Clerc mae wedi bod yn fraint iddo am fod yn y swydd.

Eitem 5.e. Lythyr (13/3/2024) oddi wrth Mr Pike yn holi am ein praesept ac angen copi o'n cyfrifon.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Eitem 12.b. Anfonwyd llythyr (14/3/2024) i'r aelodau yn rhoi gwybod bydd y cyfarfod gyda Mabon ap Gwynfor AS ar ddydd Iau, Ebrill 4, 2024 am 11.00yb. Amgawyd llythyr cafodd ei anfon i Mabon ap Gwynfor.

Llythyr ateb (3/4/2024) derbyniodd Delyth oddi wrth Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Maent yn rhoi gwybod bod ACGCC yn Asiant i Lywodraeth Cymru i wella rhwydwaith ffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru trwy wneud gwaith fel cynnal a chadw. Ar faterion sy'n ymwneud â Pholisi neu Flaenoriaethu Gwaith mi fyddant yn cael eu delio gan Lywodraeth Cymru, materion fel terfynau cyflymder. Mae ein hymoliadau wedi eu hanfon i Lywodraeth Cymru am ymateb.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CYFARFOD EBRILL 9, 2024

Cafodd y mater sylw ar raglen Dros Frecwast ac ar raglenni newyddion y diwrnod. Yn rhoi sylwadau oedd Delyth, Simon, Geraint, Eleri a Mabon ap Gwynfor AS. Cafodd y mater sylw ar raglen Newyddion y teledu ac roedd pawb yn siarad yn dda ac yn edrych yn dda.

Roedd tua 20 yn bresennol ar y safle yn cynnwys plant, rheini'r plant ac aelodau Llanelltyd o'r Cyngor Cymuned.

Cafwyd wybod gan Delyth bod hi a Mabon wedi ysgrifennu at Ken Skates AS (4/4/2024) parthed 30 milltir yr awr.

Diolch i Delyth am drefnu'r cyfarfod.

Eitem 7.a. Cafwyd gwybod (19/3/2024) gan Mr Meurig Ashton mae wedi ymddeol o wneud gwaith yn y Fynwent. Mae'n ddiolchgar am y cyfle cafodd i wneud gwaith i'r Cyngor.

Penderfynwyd gwneud ymoliadau â Mr Llur Williams, Gwasanaeth Tir a Choed, R.W. Britland, Brenda Parsons, a Gethin Weaver i gael pris am wneud gwaith cynnal a chadw'r fynwent.

10.a. Derbyniwyd y costau am y swm £963.20.

Eitem 12.a. Cafwyd cyfarfod ar Bont Hirgwm ar 22/3/2024. Yn bresennol oedd Delyth, Gwenan, Llinos, a Henry. Yn bresennol hefyd oedd Mr Dylan Erfyl Davies o YGC. Mater i Cyngor Gwynedd yw penderfynu beth allith ei wneud i'r bont.

Eitem 1. Eitem 11.ch. Llythyr ateb (25/3/2024) oddi wrth Priffyrdd yn rhoi gwybod nid ydynt am roi bin wrth Foel Isbri Uchaf ac yn cynig symud bin halen BD5 i'r lleoliad. Mae hyn oherwydd mae y niferoedd o finiau halen ar rwydwaith Gwynedd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

5. Materion Ariannol

a. Llythyr (14/3/2023) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn cynnwys:

i. P60 am y flwyddyn yn diweddu 5/4/2024.

ii. Bil am £228.00 am gwblhau PAYE am y flwyddyn yn gorffen 5/4/2024 ac am roi gwybodaeth cyflog fisol i HMRC ar-lein i gydymffurfio â RTI a pharatoi tystysgrif P60 am ddiwedd y flwyddyn.

Penderfynwyd talu'r bil.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CYFARFOD EBRILL 9, 2024

b. Cyflog newydd y Clerc yn £3,017.52 y flwyddyn (gweler Cofnodion Tachwedd 14, 2023, Eitem 5.dd.).

Cyflog y Clerc yn fisol = £3,017.52 / 12 = £251.46 (gross)
Taliad misol i HMRC = £251.46 x 20/100 = £50.29
Taliad misol i'r Clerc = £251.46 - £50.29 = £201.17 (net).

c. Llythyr (21/3/2024) oddi wrth Un Llais Cymru gyda dogfen bydd o gymorth i baratoi cyllideb, monitro ariannol ac archwilio.

ch. Derbyniwyd (26/03/2024) £2,525.20 oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri tuag gwaith Bioamrywiaeth.

d. Costau'r Clerc am y cyfnod Ebrill 1, 2023 – Mawrth 31, 2024:

Papur - £74.81
Inc- £650.34
Stampiau post – £65.90
Cyfanswm- £791.05. (Llynedd roedd y costau yn £732.97)

Penderfynwyd talu'r costau.

dd. Llythyr (19/3/2024) oddi wrth Un Llais Cymru i adnewyddu ein haelodaeth i ymuno ag Un Llais Cymru am y flwyddyn 2024-2025. Cynnwys gyda'r llythyr mae llythyr yn rhoi beth yw'r manteision bod yn aelod. Tal aelodaeth yw £114.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd talu'r tâl aelodaeth.

e. Siec (4/4/2024) am £2,015.00 oddi wrth Glyn Rees a'i Fab. Taliad at Ronald Godfrey Morris claddedigaeth cyntaf (bedd i 2) £933.00 + hawl claddu £679.00 = £1,612.00 + 25% = £2,015.

f. Bil (9/4/2023) am £710 oddi wrth John Arfon Owen i agor bedd dwbl at wasanaeth ar 26/3/2024).

Penderfynwyd talu'r bil.

Roedd canmoliaeth i'r gwaith taclus mae John Arfon Owen yn ei wneud at wasanaeth claddedigaeth.

ff. Balans yn y banc ar 29/3/2024: £6,692.52.

6. Archwilio

- a. Llythyr (18/3/2024) oddi wrth Archwilio Cymru yn cynnwys dogfennau i gwblhau Archwiliad Allanol Llawn o'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024.
- b. Anfonwyd (19/3/2023) llythyr i Gwasanaeth Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd yn gofyn iddynt archwilio dogfennau y Cyngor am y cyfnod 2023-2024. Llythyr ateb yn dweud maent am wneud y gwaith.
- c. Llythyr (4/4/2024) oddi wrth Archwilio Mewnol yn cynnwys rhestr o ddogfennau bydd angen sylw.

7. Mynwent Llanelltyd

- a. Rhoddwyd gwybod (19/3/2024) i'r aelodau mae Mr Meurig Ashton wedi ymddeol o wneud gwaith yn y Fynwent. Mae'n diolch cafodd y cyfle i wneud gwaith i'r Cyngor. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau.
- b. Cafwyd gwasanaeth angladd i Ronald Godfrey Morris ar 26/3/2024.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

- a. Llythyr (18/3/2024) oddi wrth y Parc yn rhoi gwybod bydd grant ar gael gan Cronfa Cymunedau Eryri (CCE). Amgáu mae gwybodaeth am CCE a Ffurflen Gais ei gwblhau. Maent yn derbyn ceisiadau o 18/3/2024 hyd at 13/5/2024.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

- b. Cais cynllunio NP5/65/14R. Gosod pod gwersylla ar gyfer llety gwyliau tymor byr. Bryn Du, Llanelltyd. LL40 2TA

Penderfynwyd cefnogi'r cais.

- c. Cais cynllunio NP5/65/256A. Dymchwel gwesty a ddifrodwyd gan dân a chodi 8 (4 fforddiadwy) tŷ tri llawr. Bontddu Hall Hotel, Bontddu.

Penderfynwyd cefnogi'r cynllun mewn egwyddor yn unig oherwydd mae angen fwy o wybodaeth ar y cais.

9. Gohebiaeth

- a. Llythyr ateb (15/3/2024) oddi wrth Peiriannydd Prosiect, Swyddfa'r Cyngor, Pwllheli ynglŷn â chael lloches fws newydd wrth fynedfa i Bro Cymer (gweler Eitem 11.d. yn Cofnodion Chwefror 13, 2024) . Mae'n rhoi gwybod maent yn ystyried:

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION CYFARFOD EBRILL 9, 2024

1. Gosod lloches bws newydd lle mae'r fainc wedi ei osod. Y teip o loches bydd yn cael ei osod yw 'Principle 2 bay Double Front Entry' (mae manylion gyda'r llythyr.). Maent yn holi os mae angen gosod y fainc ar safle arall.

2. Mae'r lloches bws presenol ddim yn addas o ran iechyd a diogelwch ac felly maent yn bwriadu gosod lloches bws newydd yn ei le. Y teip o loches sy'n addas i'r safle yw 'Cantilever 2 Bay gyda 3/4 Ends' (mae manylion gyda'r llythyr). Maent yn holi os mae gan y Cyngor Cymuned unrhyw ddefnydd i'r llochesi bws presenol.

Wedi'r gwaith cael ei gwblhau y Cyngor Cymuned fydd yn gyfrifol am y llechesi.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd rhoi gwybod i'r Peiriannydd Prosiect mae angen fwy o amser i roi penderfyniad ar y cynllun oherwydd mae'r aelodau am wneud ymoliadau â phobl yr ardal i gael gwybod eu barn ar y cynllun.

b. Llythyr (19/3/2024) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae'r gorchymyn ar lwybr troed rhif 71 ym Mhen y Gribin, Bontddu wedi cael ei gadarnhau yn ddiwrthwynebiad. Amgáu mae'r gorchymyn a map.

c. Llythyr (28/3/2024) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd Tim Tacluso Ardal Ni yn gwneud gwaith yn Llanelltyd ar 8-12/4/2024.

ch. Llythyr (8/4/2024) oddi wrth Cyng. Peter Barnes, Cyngor Tref Dolgellau. Mae angen gwybod pwy sy'n rheoli mynediad i hen bont Llanelltyd ac oes gan y Cyngor sylw ar y mater. Mae'r mater wedi codi oherwydd y garreg fawr sydd ar draws y ffordd i rwystro campedrvans ac yn gwneud iddynt symud yn ôl i'r gilfach barcio, ac yn rhwystro pobl leol a physgotwyr i barcio wrth y bont.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Dan arweiniad Delyth, anfonwyd llythyr i Cyng. Peter Barnes yn gofyn iddo pwy gododd y mater mynediad at y bont, a gofyn am gopi o'r llythyr derbyniodd (os oedd llythyr).

Derbyniwyd ateb yn dweud buodd y mater ar Facebook ac roedd ar lafar.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd rhoi gwybod i Gyng. Peter Barnes ni chafodd y Cyngor ymoliadau na chwyn ar y rhwystrad i hen bont Llanelltyd gan y cyhoedd.

10. Bioamrywiaeth

a. Derbyniodd (14/3/2024) y Clerc parcel Maze premium Tumbler trwy'r post. Mae'r parcel i Simon Evans.

Oherwydd doedd Simon Evans ddim ar gael gofynnwyd i'r aelodau i un ohonynt ddod i nôl y peiriant oherwydd mae'n weddol drwm ac yn anodd ei roi yn y car (19/3/2024). Yn garedig iawn daeth Gareth Ellis i nôl y peiriant.

b. Anfonodd (23/4/2024) Simon anfoneb i Elin Smith (Swyddog Bioamrywiaeth (Technegol), Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri) gwerth £2,977.24. Anfonwyd anfoneb arall gyda mwy o wybodaeth i Elin Smith (ni chafodd y Clerc gopi).

11. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths

a. Mae achos llys Hengwrt wedi cael ei ohirio.

Anfonwyd y neges ymlaen i'r aelodau (18/3/2024).

12. Materion Brys

a. I ddod a swydd Henry i ben, roedd yr aelodau angen iddo gysylltu â sefydliadau sy'n delio gyda'r Cyngor a rhoi gwybod iddynt i anfon eu negeseuon i e-bost y Cyngor sef Clerc@cyngorllanelltyd.cymru
